

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyngorydd E Webster Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd S Morgans Y Cyngorydd A Cox
Y Cyngorydd L Jones Y Cyngorydd P Howe

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu
Mr P Nicholls, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

39 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick, S. Powderhill, D. Williams a T. Williams

40 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

41 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

42 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr, 2018 yn rhai cywir.

43 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 19.11.18 - 06.01.19

Cyflwynodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd fanylion i Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 19 Tachwedd, 2018 tan 6 Ionawr 2019 a **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

44 **Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

45 **Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 24/11/18 - 11/01/19**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 24 Tachwedd, 2018 tan 11 Ionawr, 2019.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

46 **Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 19.11.18 - 06.01.19**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 19 Tachwedd, 2018 tan 6 Ionawr, 2019.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

47 **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Rhoddodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd wybod i Aelodau am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru sydd ar agor ar hyn o bryd ar gynigion i ddeddfu ar gyfer diwygio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau bws lleol a thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Cymunedau Diogel a Thrwyddedu Ran 2 y ddogfen ymgynghori, a oedd yn ymwneud â Thacsis a Cherbydau Hurio Preifat, i Aelodau a dywedodd wrthyn nhw am gynigion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion a amlygwyd:

1. **Safonau Cenedlaethol** – Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod safonau cenedlaethol ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat. Byddai rhaid i bob tacsî a cherbyd hurio preifat yng Nghymru fodloni'r safonau hyn er mwyn cael trwydded. Byddai'r safonau hyn yn cael eu gosod wedyn gan reoliadau ac felly byddai ymgynghori pellach ar eu cynnwys.
2. **Gorfodi** – Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig caniatáu i awdurdodau trwyddedu gymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw gerbyd sy'n gweithredu

yn eu hardal.

3. **Rhannu Gwybodaeth** – Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig caniatáu datblygu system ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol at ddibenion diogelu.
4. **Awdurdod Trafnidiaeth ar y Cyd** – Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu Awdurdod Trafnidiaeth ar y Cyd yn awdurdod trwyddedu cenedlaethol a fydd yn ymgymryd â'r holl swyddogaethau mewn perthynas â thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat, yn hytrach na bod y rhain yn ddyletswydd yr awdurdodau lleol. Byddai hyn yn cynnwys trwyddedu, gosod ffioedd a phrisiau, gorfodi, gwranddo ar apelïadau sy'n deillio o benderfyniadau trwyddedu, erlyniadau a phenderfynu ar faterion fel defnyddio rheolaethau niferoedd mewn perthynas â thacsis.

Cafodd Aelodau'r cyfle i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau mewn perthynas â'r cynigion uchod.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** y byddai'r ddogfen ymgynghori yn cael ei hanfon at Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu er mwyn i Aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau pellach erbyn 27 Mawrth, 2019.

48 **Cyhoeddiad gan y Cadeirydd**

Cyn i'r cyfarfod ddod i ben, cymerodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor y cyfle i anfon dymuniadau da i'r Cynghorydd D. Williams, a oedd yn absennol am resymau iechyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm

**Y Cynghorydd A Fox
Cadeirydd.**